Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Deintyddfa Bryntirion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

11 Hydref 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-8405-4
© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
   - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 8
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14
5. Y Camau Nesaf ........ 16
6. Methodoleg ........ 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ddeintyddfa Bryntirion yn Sir Ivors Road, Pontllan-fraith, Coed-duon, NP12 2JH ar 11 Hydref 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Deintyddfa Bryntirion yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Bryntirion yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pontllan-fraith Coed-duon. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Deintyddfa Bryntirion yn bractis cymysg sy’n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd rhan-amser, tair nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol GIG a phreifat.

## 3. Crynodeb

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol fod Deintyddfa Bryntirion yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd offer digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael yn dangos bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch staff y practis.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymell y gallai'r practis ei wella:

- Mae angen cynnal archwiliadau ar yr holl offer brys yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio os bydd argyfwng claf (ymgwympiad)
- Mae angen i'r deintyddion wella agweddau ar eu gwaith cadw cofnodion
- Mae angen cyflwyno gwerthusiadau ar gyfer yr holl staff.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom fod y cleifion sy'n ymweld â'r practis yn cael eu trin gydag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o 19 o holiaduron wedi'u cwblhau gennym, ac roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Mae'r staff bob amser yn groesawgar iawn a pharod eu cymwynas"*

> *"Rwyf wedi derbyn triniaeth o'r radd flaenaf yn y practis hwn ac ni fu gen i erioed reswm i fod yn anfodlon ag unrhyw waith deintyddol a wnaed yn y 23 mlynedd yr wyf i wedi bod yn glaf yma"*

> *"Deintyddfa ragorol. Mae'r driniaeth yn dda ac maen nhw wedi gallu fy ngweld i pan fu problem fel coron neu haint. Roeddwn i'n gallu gweld deintydd arall pan roedd fy neintydd i ar wyliau"*

<u>Gofal ag urddas</u>

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, barchus a phroffesiynol. Gellid gweld fod y staff yn dîm bach cyfeillgar a gwelsom achosion o ryngweithio moesgar a chwrtais gyda'r cleifion.

Roedd holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod y cleifion yn fodlon iawn gyda lefel y gofal a'r driniaeth a ddarperir iddynt. Dywedodd yr holl gleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau wrthym fod staff y practis wedi eu croesawu. Roedd rhai cleifion hefyd wedi ychwanegu eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ar agwedd a dull tîm y practis.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn yr ystafell aros, yn ogystal â chostau ar gyfer triniaethau deintyddol GIG. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Roedd taflen wybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa i gleifion ei darllen ac roedd copïau ar gael iddynt fynd gyda nhw, yn cynnig gwybodaeth gyffredinol am y practis.

Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth sylwadau yn holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi dioddef oedi sylweddol cyn cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oediadau i amseroedd eu hapwyntiadau.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt. Roedd y rhif ffôn ar gael trwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cael ei arddangos ger drws ffrynt y practis, ar y neges peiriant ateb ac yn nhaflen wybodaeth y practis.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd iddynt gan y deintyddion.

Gofal unigol

Roedd mynediad i'r ddeintyddfa trwy ris. Y tu mewn, roedd dwy ystafell driniaeth ar lawr daear y practis. Fe'n hysbyswyd nad oedd gan y practis fynediad at gyfleuster i helpu defnyddwyr cadair olwyn i gael mynediad at y practis yn haws. Trafodwyd gyda'r practis efallai yr hoffai ystyried defnyddio ramp cludadwy, er mwyn helpu defnyddwyr cadair olwyn, neu gleifion ag anawsterau symud, i ddod i mewn i'r practis. Cytunodd perchennog y practis i ystyried trefniadau mynediad i'r ddeintyddfa.

Roedd gan y practis *flwch awgrymiadau cleifion* yn yr ystafell aros, yn galluogi cleifion i gynnig adborth ad-hoc a dienw am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Gwelsom fod arolwg cleifion wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar a bod y practis yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwynion ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ar sut i godi pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn yr ystafell aros i gleifion. Roedd gan y practis ddwy weithdrefn gwynion ar wahân, un ar gyfer cleifion preifat a'r llall ar gyfer cleifion GIG. Gwelsom fod cofnodion wedi

cael eu cadw o gwynion ysgrifenedig, ond nid cwynion llafar a dderbyniwyd. Argymhellwyd i'r practis y dylai gadw gwybodaeth yn ymwneud â phob cwyn lafar a dderbynnir, gan ei alluogi i ddadansoddi themâu a thueddiadau, a chytunwyd y byddai'n gwneud hynny.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Dangoswyd proses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol. Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.**

**Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân a thaclus ac yn cynnwys y cyfarpar cywir i hwyluso glanhau effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen selio'r llawr yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn caniatáu glanhau rhwydd.**

**Nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran archwilio offer i'w ddefnyddio mewn argyfwng claf (ymgwympiad) yn rheolaidd.**

**Nodwyd gennym hefyd fod angen rhywfaint o welliant o ran agweddau ar broses cadw cofnodion y deintyddion ac mae'n ofynnol iddynt gymryd camau i gydymffurfio'n llawn â safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.**

<u>Gofal diogel</u>

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom yn ystod taith o gwmpas y practis fod yr holl fannau yn lân a thaclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei archwilio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau a oedd yn nodi peryglon posibl a chamau i leihau risg.

Roedd contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda'r cyngor sir lleol. Roedd offer gwahanu amalgam fel y gellid cael gwared ar ronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol yn cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn eu gwaredu'n ddiogel. Nid oedd gan y practis gyfleusterau priodol ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd, ac rydym yn argymell y dylid trefnu darpariaeth briodol ar gyfer storio a chasglu gwastraff glanweithiol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod cyfleusterau gwaredu gwastraff ar gael ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd.***

Nid oedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân fel yr argymhellir yn nogfen ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).[1] Trafododd y practis eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a allai gynnwys ystafell ddadheintio. Anogwyd y practis i fwrw ymlaen â datblygiad yr adeilad i gyflwyno ystafell ddadheintio sengl yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried bwrw ymlaen â chynlluniau i gynnwys ystafell ddadheintio ar wahân yn adeilad y practis.***

Dangoswyd proses ddadheintio drylwyr gan y staff. Roedd offerynnau'n cael eu glanhau â llaw yn yr ystafelloedd triniaeth ac yna'n cael eu trosglwyddo'n briodol i gael eu sterileiddio. Roedd dau beiriant aerglos[2] yn cael eu defnyddio yn y practis, un ym mhob ystafell driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod y ddau beiriant wedi cael eu harchwilio a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio. Cynhaliwyd profion ar ddechrau a diwedd y dydd i ddangos bod y peiriannau yn dal i fod yn ddiogel i'w defnyddio a chofnodwyd y canlyniadau mewn llyfrau log. Trafodwyd gyda'r staff efallai yr hoffent ystyried atodi'r argraffiadau o'r cofnodion cylch o'r peiriannau aerglos i'r llyfrau log er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu colli. Cytunodd y tîm staff i wneud hyn.

Roedd lle'n brin yn yr ystafelloedd triniaeth, gan wneud y broses o lanhau offer yn fwy anodd. Gan nad oedd ystafell ddadheintio ar wahân, trafodwyd gyda pherchennog y practis y posibilrwydd o symud y peiriannau aerglos, sydd wedi'u lleoli ym mhob ystafell driniaeth, i leoliad arall er mwyn creu mwy o le i weithio. Cytunodd perchennog y practis i ystyried y cynnig hwn fel opsiwn.

---

[1] Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1)] yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr pwysedd yw peiriant aerglos a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy eu gwneud yn destun ager dirlawn pwysedd uchel.

Roedd offerynnau wedi'u glanhau a'u sterileiddio yn cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn atal croeshalogi. Er bod y dyddiadau prosesu (glanhau a sterileiddio) wedi cael eu hysgrifennu ar becynnau, rydym yn argymell y dylid ychwanegu'r dyddiadau y mae'n rhaid defnyddio neu ailbrosesu'r offerynnau yn eu herbyn hefyd er mwyn cydymffurfio'n llawn â WHTM 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gofnodi'r dyddiad y dylid defnyddio neu ailbrosesu offerynnau yn ei erbyn ar becynnau offerynnau wedi'u dadheintio.***

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad WHTM 01-05 o drefniadau dadheintio'r holl ystafelloedd triniaeth ym mis Mai 2016. Gwelsom gynllun yn nodi canlyniadau a'r argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r archwiliad, yr oedd perchennog y practis yn eu gweithredu.

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân a thaclus ac wedi'u dodrefnu'n gyffredinol i hwyluso glanhau effeithiol. Roedd angen trwsio'r cypyrddau yn un ystafell driniaeth lle'r oedd man bach o bren wedi cael ei amlygu, a oedd yn golygu ei bod yn fwy anodd ei lanhau. Gwelsom hefyd fod angen selio'r lloriau yn y ddwy ystafell driniaeth i ganiatáu glanhau effeithiol er mwyn lleihau croeshalogi.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y cypyrddau'n cael eu selio'n briodol er mwyn caniatáu glanhau effeithiol.***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r llawr presennol (neu wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhan o'r llawr heb ei selio a ddangoswyd i berchennog y practis.***

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng claf (ymgwympiad). Gwelsom gofnodion yn dangos bod cyffuriau ac offer yn cael eu harchwilio bob mis. Argymhellwyd i berchennog y practis y dylid cynnal archwiliadau wythnosol ar gyffuriau ac offer brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor

Dadebru (DU).[3] Cadarnhaodd perchennog y practis y byddai hyn yn cael ei gyflwyno.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddynt system ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd ar yr offer brys yn unol â'r safonau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).***

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn nodi bod hyfforddiant mewn adfywio cardio-pwlmonaidd yn gyfredol ar gyfer yr holl staff.

Nid oedd gan y practis rywun wedi'i enwi a oedd yn gyfrifol am gymorth cyntaf pe bai angen triniaeth cymorth cyntaf ar glaf neu aelod o staff. Rydym yn argymell i berchennog y practis y dylai ofyn am gyngor ar eu cyfrifoldebau fel practis deintyddol o ran canllawiau[4] ar gyfer swyddogion cymorth cyntaf a'r hyfforddiant priodol sy'n ofynnol. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Daethpwyd i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnydd diogel o offer radiograffig (pelydr-X). Mae hyn oherwydd bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ar ddefnydd diogel o offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Nid oedd yr arolygon safle cychwynnol ar gyfer y peiriannau pelydr-X a oedd yn cael eu defnyddio ar gael gan y practis. Argymhellwyd gennym y dylai perchennog y practis gael gafael ar arolygon safle ar gyfer y peiriannau pelydr-X sy'n cael eu defnyddio yn y practis. Cadarnhaodd y perchennog fod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio'r staff clinigol yn gyfredol ac yn bodloni canllawiau a gyflwynwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y sampl o dystysgrifau hyfforddiant i ni eu gweld yn dangos hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis wneud trefniadau i gael gafael ar arolygon safle o'r holl beiriannau pelydr-X sy'n cael eu defnyddio yn y practis.***

---

[3] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hybu canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithrediad.

[4] http://www.hse.gov.uk/firstaid/index.htm

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad o ansawdd delweddau pelydr-X. Rydym yn argymell y dylai'r practis gynnal archwiliad o'r fath i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Dylid cynnal yr archwiliad hwn bob blwyddyn o leiaf.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Cadarnhaodd perchennog y practis fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion a gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos hyn.

Cadarnhaodd y staff i ni siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith sydd ganddynt gyda thîm y practis ac roeddent yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd ar sail y rhain.

<u>Gofal effeithiol</u>

Dangosodd trafodaethau gyda pherchennog y practis ymrwymiad gan y tîm i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Rhoddodd perchennog y practis enghreifftiau o archwiliadau clinigol yr oedd tîm y practis yn bwriadu eu cyflwyno gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Dylai'r practis fwrw ymlaen â'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal gan ddatblygu a monitro cynlluniau gwella yn rhan o'r gweithgarwch gwella ansawdd. Rydym wedi nodi rhai meysydd ar gyfer gweithgarwch archwilio uchod, gan gynnwys cofnodion cleifion, ansawdd delweddau pelydr-X, ac adolygiadau gan gymheiriaid.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis fwrw ymlaen â threfniadau ar gyfer archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel sy'n briodol.***

Ystyriwyd sampl o gofnodion deintyddol naw o gleifion gennym i asesu ansawdd gwaith cadw cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan y staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Canfuwyd gennym fod meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn ddigon manwl. Dyma nhw:

- Roedd canlyniadau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol wedi eu cofnodi'n anghyson yng nghofnodion cleifion, ac nid yn unol â'r canllawiau a argymhellir.
- Prin iawn oedd yr archwiliadau pelydr-X a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion. O'r naw o gofnodion cleifion a ystyriwyd, nid oedd unrhyw archwiliadau pelydr-X wedi'u cofnodi ar chwech ohonynt, a chynhaliwyd

archwiliadau pelydr-X ar y gweddill rhwng 1999 a 2012 ddiwethaf. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau a argymhellir.

- Nid oedd opsiynau diagnosis a chynllunio triniaeth a roddwyd i gleifion wedi'u cofnodi'n eglur yn y cofnodion bob amser.
- Roedd cofnodion archwiliadau meinwe feddal yn brin, gan gynnwys sgrinio canser. Fe'n hysbyswyd bod hyn yn cael ei wneud ar gyfer pob claf ym mhob apwyntiad, ond nid oedd yn cael ei gofnodi fel archwiliad ar wahân.
- Fe'n hysbyswyd bod hanesion meddygol yn cael eu harchwilio ym mhob apwyntiad, ond nid oedd y drafodaeth gyda'r cleifion wedi ei chofnodi bob amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd un deintydd yn berchen ar y practis ac yn ei reoli gyda chymorth deintydd cyswllt a thîm staff cyfeillgar. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.**

**Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis a'u cydweithwyr. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant perthnasol.**

Perchennog y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan nodwyd meysydd i'w gwella gennym, dangosodd y perchennog barodrwydd ac ymrwymiad i roi sylw i hyn yn gyflym.

Nododd sgyrsiau gyda'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan berchennog y practis a thîm y practis. Canfuwyd gennym hefyd bod y staff yn eglur ac yn wybodus ynghylch eu cyfrifoldebau amrywiol.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd angen adolygu a diweddaru rhai o'r rhain er mwyn sicrhau bod polisïau yn cyfeirio at ganllawiau sy'n berthnasol yng Nghymru, a WHTM 01-05 yn benodol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau perthnasol i'w swyddi. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant. Gwelsom fod y staff nyrsio deintyddol yn y practis wedi derbyn gwerthusiad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fe'n hysbyswyd nad oedd y deintyddion wedi derbyn gwerthusiad, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Argymhellwyd i'r practis y dylai'r deintyddion dderbyn gwerthusiad o'u gwaith yn rheolaidd hefyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael gwerthusiad rheolaidd o'u gwaith.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebiad ymhlith tîm y practis yn effeithiol. Gwelsom fod canlyniadau dysgu o gyfarfodydd practis rheolaidd wedi cael eu cofnodi, gan gynnwys camau a gymerwyd.

Canfuwyd gennym fod staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Roedd

cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn Hepatitis B i ddiogelu cleifion a'u hunain rhag haint.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cynnig gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Bryntirion yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r bwrdd iechyd roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a’i gyhoeddi ar wefan AGIC a’i werthuso yn rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Bryntirion

## Dyddiad yr Arolygiad: 11 Hydref 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | *Nid oes angen cynllun gwella* | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Mae angen i'r practis sicrhau bod cyfleusterau gwaredu gwastraff ar gael ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd. | Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 | | | |
| 9 | Dylai'r practis ystyried bwrw ymlaen â chynlluniau i gynnwys ystafell ddadheintio ar wahân yn adeilad y | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | practis.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* | (fel y’u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | | | |
| 10 | Dylai’r practis gofnodi’r dyddiad y dylid defnyddio neu ailbrosesu offerynnau yn ei erbyn ar becynnau offerynnau wedi’u dadheintio.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y’u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | | | |
| 10 | Mae’n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y cypyrddau’n cael eu selio’n briodol er mwyn caniatáu glanhau effeithiol.<br>Mae’n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a’r llawr presennol (neu wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhan o’r | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y’u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | llawr heb ei selio a ddangoswyd i berchennog y practis.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* | | | | |
| 11 | Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddynt system ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd ar yr offer brys yn unol â'r safonau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).<br>*Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | | | |
| 11 | Dylai'r practis wneud trefniadau i gael gafael ar arolygon safle o'r holl beiriannau pelydr-X sy'n cael eu defnyddio yn y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015<br><br>Safon 2.9 | | | |
| 12 | Dylai'r practis fwrw ymlaen â threfniadau ar gyfer archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel sy'n briodol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 16 | | | |
| 13 | Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4* | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael gwerthusiad rheolaidd o'u gwaith.<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Pennod 6* | Y Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 3.3 | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ...............................................................................................

**Teitl:** ...............................................................................................

**Dyddiad:** ...............................................................................................

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa Bryntirion

## Dyddiad yr Arolygiad: 11 Hydref 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | *Nid oes angen cynllun gwella* | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Mae angen i'r practis sicrhau bod cyfleusterau gwaredu gwastraff ar gael ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd. | Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 | Rydym wedi cysylltu â'n gwasanaeth casglu gwastraff cofrestredig ac wedi trefnu ar gyfer cynwysyddion gwastraff neilltuedig / casglu gwastraff hylendid benywaidd yn briodol. | Douglas Goodwin | Cwblhawyd |
| 9 | Dylai'r practis ystyried bwrw ymlaen â chynlluniau i gynnwys ystafell ddadheintio ar wahân yn adeilad y | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Rydym yn bwrw ymlaen â'n cynlluniau i symud y peiriannau aerglos i mewn i ystafell storio sydd eisoes yn bodoli ac yna ei throi'n | Douglas Goodwin | Parhaus |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | practis.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* | 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | ystafell ddadheintio neilltuedig. | | |
| 10 | Dylai'r practis gofnodi'r dyddiad y dylid defnyddio neu ailbrosesu offerynnau yn ei erbyn ar becynnau offerynnau wedi'u dadheintio.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Rydym bellach yn cofnodi'r dyddiadau prosesu a hefyd y dyddiad 'defnyddio erbyn' ar becynnau offerynnau sydd wedi’u dadheintio. | Douglas Goodwin | Cwblhawyd |
| 10 | Mae’n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y cypyrddau’n cael eu selio'n briodol er mwyn caniatáu glanhau effeithiol.<br>Mae’n rhaid i berchennog y practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r llawr presennol (neu wneud trefniadau priodol eraill) i atal dŵr, llwch a sbwriel rhag casglu yn y rhan o'r | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Mae'r cypyrddau wedi cael eu trwsio a'u selio.<br>Mae'r llawr wedi cael ei selio rhwng y cypyrddau a'r lloriau yn y ddwy ystafell driniaeth. | Douglas Goodwin | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | llawr heb ei selio a ddangoswyd i berchennog y practis.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05* | | | | |
| 11 | Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddynt system ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd ar yr offer brys yn unol â'r safonau ansawdd a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).<br>*Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Rydym wedi diweddaru ein systemau a bellach yn cynnal archwiliadau wythnosol i ddisodli ein harchwiliadau misol ar yr offer a'r cyffuriau brys er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r Cyngor Dadebru (DU). | Douglas Goodwin | Cwblhawyd |
| 11 | Dylai'r practis wneud trefniadau i gael gafael ar arolygon safle o'r holl beiriannau pelydr-X sy'n cael eu defnyddio yn y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Rydym wedi cysylltu â'n Peirianwyr Gwasanaeth Ymbelydredd ac mae gennym bellach arolygon safle addas ar gyfer pob peiriant pelydr-X yn ein Ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd. | Douglas Goodwin | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015<br>Safon 2.9 | | | |
| 12 | Dylai'r practis fwrw ymlaen â threfniadau ar gyfer archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel sy'n briodol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 16 | Eleni rydym eisoes wedi cwblhau archwiliadau clinigol ar ragnodi meddyginiaeth wrthficrobaidd a dadheintio offerynnau deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn fuan, byddwn yn bwrw ymlaen ag archwiliad pelydr-X a byddwn yn rhoi unrhyw gynlluniau gwella ar waith yn ôl yr angen. | Douglas Goodwin | Parhaus / Dau fis |
| 13 | Mae’n rhaid i’r deintyddion sy’n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Rydym wedi rhoi'r argymhellion a drafodwyd yn ymweliad arolygu AGIC ar waith ac wedi gwneud ein nodiadau clinigol yn fwy cynhwysfawr. | Douglas Goodwin | Cwblhawyd / parhaus |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4* | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 14 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cael gwerthusiad rheolaidd o'u gwaith.<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Pennod 6* | Y Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 3.3 | Mae'r holl staff nyrsio ac yn y dderbynfa eisoes wedi cael eu gwerthuso ac rydym bellach wedi cwblhau'r broses werthuso ar gyfer y deintyddion. O hyn ymlaen, bydd yr holl staff yn cael gwerthusiad rheolaidd o'u gwaith. | Douglas Goodwin | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Douglas Goodwin**

**Teitl:** **Deintydd / Perchennog y Practis**

**Dyddiad:** **9 Tachwedd 2016**